Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018

Amser: 09.15 – 10.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4806

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd dros dro) Llyr Gruffydd AC Darren Millar AC Julie Morgan AC Mark Reckless AC
Tystion:	Dr David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Staff y Pwyllgor:	Llinos Madeley (Clerc) Gareth Rogers (Ail Glerc) Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) Phil Boshier (Ymchwilydd) Rebekah James (Ymchwilydd) Sian Thomas (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 O dan Reol Sefydlog 17.22 etholwyd John Griffiths yn Gadeirydd dros dro.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle, Hefin David a Michelle Brown, ac nid oedd dim dirprwyon.

2 Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - sesiwn dystiolaeth 3

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

2.2 Cytunodd CCAUC i ddarparu nodyn ar y gymhariaeth rhwng nifer yr ymgeiswyr sy'n byw yn yr UE a rhai sy'n byw yn rhyngwladol â darparwyr addysg uwch Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Cod Trefniadaeth Ysgolion**
- **Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd - Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**
- **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019 - 2020**
- **Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017**
- **Llythyr oddi wrth y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd.**

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitemau 1 a 2 ar 20 Medi.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Ymchwiliad i effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019 - 2020 – Trafod y dull gweithredu

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull gweithredu.